SFJDB8

# Mynd i'r afael â cheisiadau am gymorth cyfreithiol

## Trosolwg

Mae'r safon hon ynglŷn â phrosesu ceisiadau am gymorth cyfreithiol. Mae'n cynnwys derbyn ceisiadau, cadarnhau eu cymhwyster a phrosesu hawliadau cymeradwy.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. gwneud yn siŵr fod ceisiadau am gymorth cyfreithiol yn gyflawn, yn unol â gofynion sefydliadol a deddfwriaethol
2. gofyn am wybodaeth goll o geisiadau, yn unol â gofynion sefydliadol, ac:
2.1 amlinellu’r hyn sydd ei angen
3. cydnabod derbyn ceisiadau, yn unol â gofynion sefydliadol
4. asesu ceisiadau yn erbyn meini prawf i gyfiawnhau darparu cymorth cyfreithiol, yn unol â gofynion sefydliadol a deddfwriaethol
5. cofnodi penderfyniadau a wneir ynghylch ceisiadau a hysbysu partïon perthnasol, yn unol â gofynion sefydliadol
6. penderfynu p’un a yw ceisiadau’n cyflawni’r meini prawf ar gyfer dyfarnu cymorth cyfreithiol, yn unol â gofynion sefydliadol a deddfwriaethol
7. mynd i’r afael ag ymholiadau, yn unol â gofynion sefydliadol
8. cadw gwybodaeth yn ddiogel, yn unol â gofynion sefydliadol a deddfwriaethol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. diben cymorth cyfreithiol, ac ar gyfer pwy y mae wedi ei fwriadu 2. y broses ar gyfer gwneud cais am gymorth cyfreithiol 3. gofynion a gweithdrefnau sefydliadol a deddfwriaethol presennol sy’n ymwneud â phrosesu ceisiadau am gymorth cyfreithiol 4. y meini prawf i’w cyflawni gan geisiadau sy’n cymhwyso 5. graddfeydd amser i ymgeiswyr gyflwyno ceisiadau am gymorth cyfreithiol 6. lefelau cyfrifoldeb ar gyfer delio â cheisiadau am gymorth cyfreithiol, ac at bwy i gyfeirio pan eir y tu hwnt i lefelau 7. sut i gyfrifo swm y cymorth cyfreithiol a fydd yn cael ei roi, gan gynnwys ffactorau i’w hystyried 8. gweithdrefnau cymeradwyo wrth ystyried ceisiadau, gan gynnwys at bwy y dylid cyfeirio ceisiadau 9. y partïon i’w hysbysu am ganlyniadau ceisiadau am gymorth cyfreithiol a sut i wneud hyn 10. pwysigrwydd cadw gwybodaeth yn ddiogel

Mynd i'r afael â cheisiadau am gymorth cyfreithiol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Chwef 2018 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Chwef 2023 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Sgiliau er Cyfiawnder |
| **RCU gwreiddiol** | SFJ DB8 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Swyddog Llys, Swyddog erlyn, Swyddog Tribiwnlys |
| **Cyfres/Set** | Llysoedd, Tribiwnlysoedd ac Erlyniadau |
| **Geiriau Allweddol** | llys; tribiwnlys; achos; cymorth cyfreithiol; ceisiadau; cymhwyster; hawliadau |